**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 6 Chwefror 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| P M Black | L S Gibbard | M H Jones |
| M B Lewis | R D Lewis | P B Smith |
| A H Stevens | D W W Thomas | L J Tyler-Lloyd |
| T M White | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson

---

## 56 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 57 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2018 fel cofnod cywir.

## 58 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

Dim.

## 59 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

**Penderfynwyd**

1) **Cymeradwyo'r** ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod(#):

**#(Eitem 1) Cais cynllunio 2017/2572/FUL - Datblygiad amlddefnydd sy'n cynnwys 28 o anheddau preswyl a dwy uned fasnachol (Dosbarth A1) yn Pines Country, 692 Heol Llangyfelach, Treboeth, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Gill Bramley (gwrthwynebydd) a Phil Baxter (asiant).

**Cymeradwywyd** y cais yn unol ag argymhelliad yn amodol ar ymrwymo i **Rwymedigaeth Cynllunio Adran 106** ac yn amodol ar y diwygiadau canlynol i delerau'r rhwymedigaeth ac amodau 10 ac 19:

Yng nghytundeb A106, dylai'r gofyniad i derfynu defnydd preswyl tŷ 690 Heol Llangyfelach hefyd gynnwys amserlen ar gyfer dymchwel yr eiddo yn dilyn cymeradwyaeth unrhyw hysbysiad o'r gwaith dymchwel ymlaen llaw.

Dylid diwygio amod 10 i nodi:
Cyn i unrhyw waith uwchstrwythurol ddechrau, cyflwynir yr uchder, dyluniad, y deunyddiau a'r math o driniaeth ffiniau a fydd yn cael eu codi i'r awdurdod cynllunio lleol a bydd hwnnw yn ei gymeradwyo. Bydd y cynllun yn cynnwys darparu sgrîn sain ar hyd y ffin ddeheuol fel y nodir yng nghynllun HG.13.65 (0) 50 T (Cynllun arfaethedig y safle) ac yn rhoi manylion am sut gellir atgyfnerthu ffin ogleddol y safle, ger tŷ 694 Heol Llangyfelach gan ddefnyddio cerrig o'r wal derfyn bresennol ar ôl lleihau ei huchder. Caiff y driniaeth i'r ffin ei gorffen fel y cymeradwywyd cyn y datblygiad a gymeradwyir drwy hyn gael ei feddiannu a bydd yn cael ei chynnal felly am gyhyd â bydd y datblygiad yn cael ei ddefnyddio.
Rheswm: At ddiben cynnal a chadw cynllun tirlunio boddhaol ac i ddiogelu amwynder gweledol yr ardal.

Dylid diwygio amod 19 i nodi:
Ni chaniateir cwsmeriaid i fynd i'r fangre fanwerthu y tu allan i'r oriau rhwng 07:00 a 22:00 ar unrhyw ddiwrnod. Caiff nwyddau ar gyfer yr unedau masnachol eu dosbarthu rhwng 08:00 a 09:00 yn unig ar unrhyw ddiwrnod.
Rheswm: Diogelu amwynderau'r rhai sy'n byw yn nhai gerllaw.

**(Eitem 2) Cais cynllunio 2017/2360/OUT**
**Annedd ar wahân (amlinellol) ar dir sy'n rhan o rif 44 Heol Cefn Stylle, Tre-gŵyr, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

**(Eitem 3) Cais cynllunion 2017/2511/FUL - Adeiladu 25 o unedau preswyl (16 o dai tref tri llawr, bloc tri llawr o 6 fflat a thri fflat "uwchben garej") gyda mynediad cysylltiedig, parcio, man storio sbwriel a beiciau a gwaith tirlunio yn llain E3b i'r de o Ffordd Fabian, Heol Langdon, Dociau Abertawe, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Robin Vaughan (gwrthwynebydd) a Phil Baxter (ymgeisydd).

**Cymeradwywyd** y cais yn unol â'r argymhelliad yn amodol ar yr ymgeisydd yn ymrwymo i **Rwymedigaeth Gynllunio Adran 106** ac yn amodol ar ychwanegu amod i fynd i'r afael â gwanhau sain yn yr eiddo fel a ganlyn:
Cyn dechrau unrhyw waith uwchstrwythurol, cyflwynir manylion gwanhau sain yr eiddo ar gyfer y drysau, y ffenestri a'r waliau allanol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a bydd hwnnw yn cymeradwyo hyn yn ysgrifenedig. Bydd y cynllun a gyflwynir yn sicrhau bod ystafelloedd y gellir byw ynddynt yn amodol ar fesurau inswleiddio sain yn cael eu darparu gydag unedau awyru mecanyddol fel bod y rhai a fydd yn byw ynddynt yn y dyfodol yn gallu cadw eu ffenestri ar gau. Ni fydd unrhyw uned breswyl yn cael ei meddiannu tan i'r mesurau inswleiddio sain ac awyru a gymeradwywyd gael eu gosod mewn perthynas â'r uned honno.
Rheswm: Diogelu defnydd preswyl arfaethedig yn erbyn sain bresennol sy'n deillio o draffig yn yr ardal a gweithdrefnau masnachol gerllaw.

## 60 Gwagle Cyhoeddus Agored - SA1 Glannau Abertawe

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a oedd yn ymwneud â darparu Ardaloedd Chwarae i Blant o fewn y datblygiad yn SA1.

Amlinellwyd y manylion cefndir a'r cyd-destun mewn perthynas â'r ddarpariaeth, yn ogystal â'r cynnig diwygiedig gan Lywodraeth Cymru i ariannu tri man agored/cyhoeddus yn y lleoliadau a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd:**

1) ymrwymo i Rwymedigaeth Cynllunio Adran 106 i ddarparu man agored/cyhoeddus yn ogystal ag ardal chwarae i blant yn y tair ardal a nodir o fewn Datblygiad Abertawe SA1, yn amodol ar dderbyn taliad gwerth £1,000,000 gan Lywodraeth Cymru i dalu am y dyluniad, y cynllun a chostau cynnal a chadw'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

2) cytuno ar yr ymagwedd a nodir uchod gan y Pwyllgor Cynllunio a rhoi pwerau dirprwyedig i Bennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas er mwyn cytuno ar fanylion Rhwymedigaeth Gynllunio Adran 106 Llywodraeth Cymru.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.55 pm

**Cadeirydd**